Diwrnod 1 - sesiwn 2

Day 1 – Session 2

# Sut mae'r 4 Diben yn cysylltu â'r gymuned?

# How do the 4 Purposes link to the community?



**Assignment**
**Component 1 Title:**

***Understanding how the learner, the school and the local community work together to deliver one of the <u>four purposes</u> of the new curriculum***

**Aseiniad:**
**Elfen 1 Teitl:**

***Deall sut mae’r dysgwr, yr ysgol a’r gymuned leol yn gweithio gyda’i gilydd i gyflwyno un o <u>bedwar diben</u> y cwricwlwm newydd***

This Photo by Unknown Author is licensed under CC BY-SA

Beth yw manteision datblygu partneriaethau gyda chymunedau?

What are the benefits of developing partnerships with communities?



# ESTYN: Benefits of partnerships with communities

- partnerships with the community give schools access to a wide range of activities and resources;
- pupils benefit from working with specialists and experts in their field, which can in turn have a positive impact on standards;
- pupils learn about sustainability, conservation and other environmental issues in a meaningful way;
- pupils learn about their community and their role within it as future citizens;
- parents have easy access to leisure and study facilities;

  partnerships between schools and groups within their area support the development of learning communities;

  and through working in partnership effective and efficient use is made of resources.



# Estyn: Manteision partneriaethau gyda chymunedau:

- mae partneriaethau gyda’r gymuned yn rhoi mynediad i ysgolion at ystod eang o weithgareddau ac adnoddau;
- mae disgyblion yn elwa o weithio gydag arbenigwyr yn eu maes, sydd yn ei dro’n gallu cael effaith bositif ar safonau;
- mae disgyblion yn dysgu am gynaliadwyedd, cadwraeth a materion amgylcheddol eraill mewn ffordd ystyrlon;
- mae disgyblion yn dysgu am eu cymuned a’u rôl o fewn y gymuned honno yn ddinasyddion y dyfodol;
- mae gan rieni fynediad rhwydd at gyfleusterau hamdden ac astudio;
- mae partneriaethau rhwng ysgolion a grwpiau yn eu hardal yn cefnogi datblygiad cymunedau dysgu;
- a thrwy weithio mewn partneriaeth gwneir defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau.





Community Schools

What is meant by 'community schools'?

Think of some key features you would associate with an effective community school. Write in 10 words or less.





## Ysgolion Cymunedol

Beth a olugir gan 'ysgolion cymundeol'?

Meddyliwch am rai nodweddion allweddol y byddech yn eu cysylltu ag ysgol gymunedol effeithiol. Mewn 10 gair neu lai

# Sut mae'r ddelwedd isod yn cymharu â'ch bwrdd cydweithredol/chat/syniadau?
# Estyn 2020 Ysgolion cymunedol:teuluoedd a chymunedau wrth wraidd bywyd ysgol (td 81)

## Mae ysgolion cymunedol...

yn rhoi lles pennaf teuluoedd a chymunedau wrth wraidd popeth a wnânt

yn cyfrannu at gryfhau teuluoedd ac adeiladu cymunedau cryf at y dyfodol

yn parchu ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniad y gall rhieni ei wneud

yn lle i bawb ddysgu

yn estyn llaw i ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned

yn agor eu cyfleusterau ac yn cydleoli gwasanaethau er budd y gymuned

yn ymrwymo i weithio mewn partneriaeth

yn gwneud defnydd hynod effeithiol o staff sy'n gweithio'n uniongyrchol â theuluoedd

yn cydleoli gwasanaethau i helpu teuluoedd a'r gymuned i fanteisio ar gyngor a chymorth

yn cynllunio'n strategol i fodloni anghenion teuluoedd a'r gymuned

yn darparu dysgu effeithiol i deuluoedd

yn dangos eu hymrwymiad i chwarae teg, cynhwysiant a thegwch

yn cydnabod potensial ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned o ran helpu plant i lwyddo

yn buddsoddi amser ac egni i ddod i adnabod anghenion, diddordebau a dyheadau disgyblion, teuluoedd a'u cymunedau

# How does the image below compare with our collaborative board/chat/ideas? Estyn 2020 Community schools:families and communities at the heart of school life (pg 81) states....

## Community schools...

- have the best interests of families and communities at the heart of all they do
- contribute to strengthening families and building strong communities for the future
- respect and value the contribution parents can make to the school
- are a place for learning for all
- reach out to engage families and the community
- open up their facilities and co-locate services for the benefit of their community
- are committed to working in partnership
- make highly effective use of staff who work directly with families
- strategically plan to meet the needs of families and their community
- provide effective family learning
- demonstrate their commitment to equity, inclusion and fairness
- co-locate services to help families and the community access advice and support
- recognise the potential of family and community engagement in helping children succeed
- invest time and energy in getting to know the needs, interests and aspirations of pupils, families and their communities

# Teuluoedd a chymunedau wrth galon y cyfan?
# Families and communities at the heart of everything?

- Darllenwch y blog hwn:

https://www.estyn.llyw.cymru/blog/yw-eich-ysgol-yn-un-syn-rhoi-teuluoedd-chymunedau-wrth-wraidd-ei-gwaith?_ga=2.207076691.1398570487.1604852903-1154725575.1604673275

- Read this blog:

https://www.estyn.gov.wales/blog/your-school-one-puts-families-and-communities-heart-its-work




- Darllenwch flog Estyn
- Ysgrifennwch restr o’r pethau mae’r adroddiad yn cyfeirio atynt all gryfhau’r berthynas rhwng yr ysgol a’r gymuned.
- Pam mae hyn yn bwysig?
- Byddwch yn barod i adrodd yn ôl ar 5 ffactor/elfen sy’n dangos bod ysgol yn rhoi cymuned a theuluoedd wrth galon popeth.




- Read the Estyn blog.
- Write a list of the things the report refers to that can strengthen the relationship between the school and the community.
- Why is this important?
- Be prepared to report back on 5 factors/elements that show that a school is putting community and families at the heart of everything.




1. Nodwch 5 peth
2. Oes enghreifftiau da o'r hyn sy'n digwydd yn eich ysgolion PAP?

1.Note top 5 things

2. Any good examples of what happens in your PTE schools?

# Pedwar diben y cwricwlwm i Gymru
# The four purposes of the curriculum for Wales

four purposes/pedwar dibyn

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru
www.gov.wales

**Bydd ein holl blant a phobl ifanc...**

**yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sydd:**
- yn gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain ac yn chwilio am heriau ac yn eu mwynhau
- yn datblygu corff o wybodaeth ac sydd â'r sgiliau sydd eu hangen i gysylltu'r wybodaeth honno a'i chymhwyso at wahanol gyd-destunau
- yn ymholgar ac yn mwynhau datrys problemau
- yn gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, drwy'r Gymraeg a'r Saesneg
- yn gallu egluro'r syniadau a chysyniadau y maent yn dysgu amdanynt
- yn gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau
- yn deall sut i ddehongli data a chymhwyso cysyniadau mathemategol
- yn defnyddio technolegau digidol yn greadigol i gyfathrebu a dod o hyd i wybodaeth a'i dadansoddi
- yn ymchwilio ac yn gwerthuso eu canfyddiadau'n feirniadol

ac **yn barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.**

**yn unigolion iach, hyderus sydd:**
- â gwerthoedd sicr ac sy'n sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol
- yn meithrin eu lles meddyliol ac emosiynol drwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi
- yn cymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywyd pob dydd
- yn gwybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cymorth sydd eu hangen i gadw'n ddiogel ac iach
- yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol
- yn gwneud penderfyniadau pwyllog ynghylch eu ffordd o fyw ac yn rheoli risg
- â'r hyder sydd ei angen i gymryd rhan mewn perfformiadau
- yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol wedi'u seilio ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd
- yn wynebu heriau ac yn eu trechu
- â'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen i ddelio â'u bywyd pob dydd mor annibynnol ag y gallant

ac **yn barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.**

**yn gyfranwyr mentrus, creadigol sydd:**
- yn cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion
- yn meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau
- yn adnabod cyfleoedd ac yn manteisio arnynt
- yn mentro'n bwyllog
- yn arwain ac yn chwarae rolau gwahanol mewn timau'n effeithiol ac yn gyfrifol
- yn mynegi syniadau ac emosiynau drwy wahanol gyfryngau
- yn rhoi o'u hegni a'u sgiliau fel y bydd pobl eraill yn elwa

ac **yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.**

**yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus sydd:**
- yn canfod, yn gwerthuso ac yn defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn
- yn trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd
- yn deall ac yn arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd
- yn deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu
- yn wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol
- yn parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol
- yn dangos eu hymrwymiad i sicrhau cynaliadwyedd y blaned

ac **yn barod i fod yn ddinasyddion i Gymru a'r byd.**

**All our children and young people will be...**

**ambitious, capable learners who:**
- set themselves high standards and seek and enjoy challenge
- are building up a body of knowledge and have the skills to connect and apply that knowledge in different contexts
- are questioning and enjoy solving problems
- can communicate effectively in different forms and settings, using both Welsh and English
- can explain the ideas and concepts they are learning about
- can use number effectively in different contexts
- understand how to interpret data and apply mathematical concepts
- use digital technologies creatively to communicate, find and analyse information
- undertake research and evaluate critically what they find

and **are ready to learn throughout their lives.**

**healthy, confident individuals who:**
- have secure values and are establishing their spiritual and ethical beliefs
- are building their mental and emotional well-being by developing confidence, resilience and empathy
- apply knowledge about the impact of diet and exercise on physical and mental health in their daily lives
- know how to find the information and support to keep safe and well
- take part in physical activity
- take measured decisions about lifestyle and manage risk
- have the confidence to participate in performance
- form positive relationships based upon trust and mutual respect
- face and overcome challenge
- have the skills and knowledge to manage everyday life as independently as they can

and **are ready to lead fulfilling lives as valued members of society.**

**enterprising, creative contributors who:**
- connect and apply their knowledge and skills to create ideas and products
- think creatively to reframe and solve problems
- identify and grasp opportunities
- take measured risks
- lead and play different roles in teams effectively and responsibly
- express ideas and emotions through different media
- give of their energy and skills so that other people will benefit

and **are ready to play a full part in life and work.**

**ethical, informed citizens who:**
- find, evaluate and use evidence in forming views
- engage with contemporary issues based upon their knowledge and values
- understand and exercise their human and democratic responsibilities and rights
- understand and consider the impact of their actions when making choices and acting
- are knowledgeable about their culture, community, society and the world, now and in the past
- respect the needs and rights of others, as a member of a diverse society
- show their commitment to the sustainability of the planet

and **are ready to be citizens of Wales and the world.**

## Readings:

Darllenwch yr ymchwil gan Janet Goodall a Caroline Montgomery (2014) Parental involvement to parental engagement: a continuum, Educational Review, 66:4, 399-410 https://learningfoundation.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/Parental-involvement-to-parental-engagement-a-continuum.pdf

Darllenwch astudiaeth achos Estyn Cefnogi ymgysylltiad rhieni trwy weithdai

## Tasg

Gan ddefnyddio'r llenyddiaeth i'ch cynorthwyo, archwiliwch yr astudiaeth achos yn feirniadol a nodwch a yw, neu sut mae'r, ysgol yn gwahaniaethu rhwng ymwneud rhieni â'r ysgol ac ymgysylltiad rhieni â dysgu eu plant.

## Readings:

Read the research by Janet Goodall & Caroline Montgomery (2014) *Parental involvement to parental engagement: a continuum*, Educational Review, 66:4, 399-410,
https://learningfoundation.org.uk/wp-content/uploads/2016/03/Parental-involvement-to-parental-engagement-a-continuum.pdf

Read the Estyn case study *Supporting parental engagement through workshops*

## Task

Using the literature for support, critically examine the case study and identify if, or how, the school distinguishes between parental involvement with school and parental engagement with children's learning.

**Aseiniad:**
**elfen 1**

**Teitl**: Deall sut mae'r **dysgwr**, yr **ysgol** a'r **gymuned leol** yn gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno **un** o bedwar diben y cwricwlwm newydd: cyflwyniad fideo sy'n archwilio'r broses hon yn feirniadol. (10 munud)

Gan ddefnyddio eich ysgol lleoliad, lluniwch fideo 10 munud unigol sy'n archwilio'r berthynas yn feirniadol. Dylai'r fideo fod yn seiliedig ar ddarllen academaidd, damcaniaethau ac ymchwil ac wedi'i anelu at gynulleidfa addysgu broffesiynol.






**Assignment:**
**component 1**

**Title**: Understanding how the **learner**, the **school** and the **local community** work together to deliver **one** of the four purposes of the new curriculum: a video presentation that critically examines this process. (10 minutes)

Using your placement school, produce an individual 10 minute video which critically explores the relationship. The video should be informed by academic reading, theories and research and aimed at a professional teaching audience.